# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 20 Chwefror 2013** |
| Amser: | **11:04 - 12:32** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_20_02_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Nick Ramsay (Cadeirydd)**<br>**Byron Davies**<br>**Keith Davies**<br>**Alun Ffred Jones**<br>**Eluned Parrott**<br>**David Rees**<br>**Ken Skates**<br>**Dafydd Elis-Thomas**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**<br>**Jeff Collins, Cyfarwyddwr Cyflawni, yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**<br>**Tracey Burke, Cyfarwyddwr, Strategaeth, yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Ffion Emyr Bourton (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James. Nid oedd unrhyw ddirprwyon yn bresennol.

## 2. Y Bil Teithio Llesol (Cymru): Cyfnod 1 - Dull o graffu

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull o graffu ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) a’r fframwaith ar ei gyfer, a chytunodd i lansio ymgynghoriad cyhoeddus ddydd Gwener 22 Chwefror.

## 3. Polisi y Sector Economaidd - Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog

3.1. Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a’i swyddogion i’r cyfarfod. Holodd yr Aelodau y Gweinidog a’i swyddogion.

**Camau i’w cymryd**
Cytunodd y Gweinidog i roi gwybodaeth ychwanegol i’r Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- Yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd panelau’r sectorau sy’n dangos faint o weithiau y maent wedi cwrdd hyd yn hyn a pha mor aml y byddant yn cwrdd yn y dyfodol.
- Eglurhad o’r newidiadau i gyllideb yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon a’r allbwn a gafwyd o’r gyllideb sectorau a chyflenwi busnes yn 2012/13.
- Y datganiad a gyhoeddwyd ar Busnes Cymru ac unrhyw wybodaeth ychwanegol arall am y rhaglen.
- Gwybodaeth am beth yw dangosyddion perfformiad allweddol yr Adran ar gyfer y sectorau ar ôl yr arolwg presennol.
- Ffigurau cywir ar fewnfuddsoddi yng Nghymru.
- Rhagor o wybodaeth am y strategaeth brandio ar gyfer y sectorau.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

4.2 Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan y Prif Weinidog ar Faes Awyr Caerdydd.